# JENKINS, LLEWELYN (1810 - 1878), argraffydd a chyhoeddwr

**Enw:** Llewelyn Jenkins
**Dyddiad geni:** 1810
**Dyddiad marw:** 1878
**Rhiant:** Martha Jenkins (née Edmunds)
**Rhiant:** John Jenkins
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yn 1810 yn bedwerydd mab John Jenkins, Hengoed, Sir Forgannwg, gweinidog ac argraffydd adnabyddus gyda'r Bedyddwyr, a Martha Jenkins. Dechreuodd ei yrfa fel argraffydd gyda'i dad, yn gyntaf ym Merthyr Tydfil, ac yna ym Maesycymer, sir Fynwy. Trosglwyddwyd y wasg iddo ef a'i frawd John yn 1831, ar symud ohonynt i Gaerdydd, a phan ymadawodd ei frawd yn 1834 i fod yn genhadwr, cymerodd ef y wasg trosodd ei hun. Yr oedd yn amlwg iawn fel argraffydd a chyhoeddwr cyfnodolion y Bedyddwyr, yn eu plith *Greal y Bedyddwyr*, *Ystorfa y Bedyddwyr Y Bedyddiwr*. Efe hefyd a fu'n gyfrifol am gyhoeddi llawlyfr i'r Bedyddwyr yn 1843 a 1844. Gwerthwyd y wasg ym Mehefin 1844, ac ymneilltuodd ef i fyw yn Bryngwyn, Pontnewydd. Yr oedd yn gyd-awdur *Cofiant Thomas Morris ... Casnewydd or Wysg*, 1847, a chofiant o'i dad, *Hanes ... John Jenkins, ... Hengoed*, 1859. Yn 1861 ymddangosodd ei *Hengoediana ... Hanes Eglwys y Bedyddwyr yn Hengoed ... hyd 1860*.

Yr oedd yn  r amlwg ymysg y Bedyddwyr fel pregethwr a swyddog. Bu am rai blynyddoedd yn ysgrifennydd cronfa adeiladu'r Bedyddwyr yng Nghymru ac yn llywydd Undeb y Bedyddwyr Cymreig yn 1816. Bu farw 19 Medi 1878.

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

*Hanes buchedd a gweithiau awdurol y diweddar John Jenkins D. D., Hengoed* (Caerdydd 1859)

H. Blackwell, NLW MSS 9261A: A Dictionary of Welsh Biography

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

*Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru*, 1879


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733821


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu